# GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG AR AROS CYNGOR SIR Y FFLINT,

# FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT

## Datganiad o Resymau dros Argymell Gwneud y Gorchymyn

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflwyno gwaharddiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) ar y ffordd uchod.

Bwriad y cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg yw mynd i’r afael â pharcio annetholus, cynnal gwelededd a sicrhau nad yw’r troedffyrdd a’r mannau croesi yn cael eu rhwystro gan gerbydau sydd wedi parcio.

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi **NA DDYLECH** barcio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar y palmant oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny. Gall parcio ar y palmant rwystro ac achosi anghyfleustra difrifol i gerddwyr, pobl mewn cadeiriau olwyn neu â nam ar eu golwg a phobl â phramiau neu gadeiriau gwthio.

Er lles diogelwch ar y ffordd, mae’r cynigion yn angenrheidiol i osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy’n defnyddio’r ffordd, neu i atal perygl rhag digwydd.

**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**

Dyddiedig 18 Tachwedd 2022.



_______________

Katie Wilby,

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF